


# CYNGOR TREF RHUTHUN RUTHIN TOWN COUNCIL

Neuadd y Dref  
Ffordd Wynnstay  
RHUTHUN  
LL15 1AS  
Ffôn: (01824) 703797  
e-bost: [clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk](mailto:clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk)



Town Hall  
Wynnstay Road  
RUTHIN  
LL15 1AS  
Tel: (01824) 703797  
e-mail: [clerk@ruthintowncouncil.gov.uk](mailto:clerk@ruthintowncouncil.gov.uk)

*Clerc y Dref / Town Clerk: Sandra Williams*

Eich Cyf/Your Ref:

Ein Cyf/Our Ref:

Dyddiad/Date:

21 Tachwedd 2017

At Faer y Dref a Chynghorwyr  
**Cyngor Tref Rhuthun**

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi ddod i Gyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun nos Lun, 27 TACHWEDD 2017** am 7:00 p.m. Nodir y busnes i'w drafod yn y cyfarfod yn yr agenda isod.

Yn gywir

*Sandra Williams*

Sandra Williams

**Clerc y Dref**

## **AGENDA**

- 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
- 2. CYFLWYNIAD GAN HEDDLU RHUTHUN**  
Derbyn cyflwyniad gan y Sarjant Jonny Hill ar ffigurau troseddau diweddar a'r arfer o weithredu 'fel y gwcw'.
- 3. DATGAN BUDDIANNAU**  
Datgan unrhyw fudd personol neu ariannol yn yr eitemau busnes a restrir isod.
- 4. ADRODDIAD Y MAER**
- 5. ADRODDIADAU'R AELODAU**
- 6. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL**  
Derbyn a chadarnhau bod cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2017 yn gywir.
- 7. MATERION YN CODI**
- 8. PWYLLGOR CRAFFU ARIANNOL**  
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2017.
- 9. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**  
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2017 (copi gwyrdd).  
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / Correspondence welcomed in Welsh and English

- 10. PWYLLGOR AMWYNDERAU**  
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2017 (copi melyn).
- 11. CAIS AM LYTHYR CEFNOGAETH**  
Ystyried darparu llythyr cefnogaeth i gais Theatr Gerddorol Rhuthun am gyllid Treftadaeth y Loteri ar gyfer prosiect Ail Ryfel Byd, 'O Dan y Radar', i'w gynnal ym mis Medi 2018, yn dilyn derbyn manylion yn ystod cyflwyniad gan Julie Master ar 13 Tachwedd.
- 12. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – GRŴP CYMUNED RHUTHUN**  
Ystyried cais am gymorth ariannol o £1,000 tuag at adloniant Nos Galan ar Sgwâr Sant Pedr.
- 13. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – SWYDDFA CYNGOR AR BOPETH RHUTHUN**  
Ystyried cais am gymorth ariannol o £2,000 tuag at ddarparu'r gwasanaeth cyngor a gwybodaeth o swyddfa CAB Rhuthun.
- 14. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – CYMDEITHAS GYMUNED LLANFWROG**  
Ystyried cais am gymorth ariannol o £300 tuag at welliannau i'r goleuadau ar y llawr gwaelod yn y Ganolfan.
- 15. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – CYMDEITHAS EFEILLIO RHUTHUN**  
Ystyried cais am gymorth ariannol o £1,500 tuag at ddathliadau pen-blwydd 25 oed gyda gwsteion o Briec.
- 16. ADBORTH O DDIGWYDDIAD TRAFOD DECHREUOL YR HEN LYS**  
Derbyn adborth o'r digwyddiad trafod dechreuol a gynhaliwyd yn y Manorhaus nos Fercher, 1 Tachwedd 2017.
- 17. YMGYNGHORIAD AR ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2018/19**  
Ystyried ymateb Cyngor Tref Rhuthun i Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol 2018/19, yn benodol Adran 13 sy'n ymwneud â Thaliadau i Aelodau cynghorau Tref a Chymuned.  
Dolen i'r ddogfen: <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/161003-irp-draft-report-cy.pdf>
- 18. BIN AR STRYD PRIOR**  
Ystyried gosod bin sbwriel/bin baw cŵn ar Stryd Prior gan nad oes darpariaeth ar hyn o bryd.
- 19. LLYTHYR ODDI WRTH CANGEN RHUTHUN Y BLAID LAFUR**  
Ystyried ymateb Cyngor Tref Rhuthun i'r llythyr uchod ynghylch mynd i'r afael â phroblem unigrwydd ymhlith trigolion y dref.
- 20. ADNEWYDDU ENWAU PARTH**  
Ystyried adnewyddu enwau parth cyngortrefrhuthun.gov.uk a ruthintowncouncil.gov.uk ar gost o £69.00 + TAW yr un am ddwy flynedd, neu gofrestrur am enwau parth .llyw.cymru a .gov.wales newydd, ar gost o £109 + TAW ar gyfer pob enw parth.
- 21. DATGANIAD ARIANNOL**  
Derbyn a chymeradwyo datganiad ariannol y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 31 Hydref 2017.

## 22. CYFRIFON I'W TALU

Cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn:

5105	Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	2 ginio yn dilyn y cyfarfod chwarterol		£32.00
5106	Y Lleng Brydeinig	Cyfraniad blynyddol		£50.00
D.D.	BT Business	Gwasanaethau band eang	*	£85.64
5107	Fineline	Calendrau elusen y Maer	*	£638.78
5108	Fineline	Cyflenwadau swyddfa	*	£5.35
5109	Clwb Rygbi Rhuthun	Cyfraniad ar gyfer tymor 2017/18		£350.00
5110	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol		£274.90
5111	Sandra Williams	Te/coffi/bisgedi – Sul y Cofio		£17.18
5112	Marian Rees	Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd	*	£180.00
5113	Llanfwrog CIC	Torri glaswellt – Tachwedd		£171.00
5114	IT Williams Co. Ltd.	Cludo a gwagu'r pridd/planhigion o'r basgedi crog	*	£502.08
5115	Fineline	Copiau ychwanegol calendrau elusen y Maer	*	£572.64

(Mae'r eitemau wedi'u dynodi gyda \* uchod yn cynnwys TAW adferadwy o £330.74)

## 23. TREFNIADAU BANCIO

Ystyried diweddarau llofnodwyr cyfrifon banc y Cyngor Tref.

## 24. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhau mai dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref fydd nos Lun, 18 Rhagfyr 2017.